Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Ymateb Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

i'r

Diwygiadau i reoliadau partneriaeth o dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Hydref 2018

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymateb hwn, cysylltwch â:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
03442 640 670

Gair am y Comisiynydd

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar ran pobl hŷn ledled Cymru, gan sefyll i fyny a siarad ar eu rhan. Mae hi'n gweithio i sicrhau bod y rheini sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl yn cael eu cadw'n ddiogel ac mae hi'n sicrhau bod gan bob person hŷn lais sy'n cael ei glywed, a bod ganddyn nhw ddewis a rheolaeth. Mae hi am sicrhau nad yw pobl hŷn yn teimlo'n ynysig nac yn teimlo bod pobl yn gwahaniaethu yn eu herbyn, a'u bod nhw'n cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Yr hyn mae pobl hŷn yn ei ddweud sydd fwyaf pwysig iddyn nhw sy'n llywio gwaith y Comisiynydd ac mae eu llais wrth galon popeth mae hi'n ei wneud.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog yr arferion gorau yn y ffordd y mae pobl hŷn yn cael eu trin yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Cyflwyniad

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn elfen bwysig o gyflawni'r uchelgais sydd wedi'i nodi yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac o ran cyflawni'r weledigaeth bod "gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu drwy un system gyfan ddi-dor".[1]

Nod Deddf 2014 yw ceisio gwella pa mor effeithiol ac effeithlon y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu drwy ddefnyddio adnoddau, sgiliau ac arbenigedd yn fwy effeithiol, fel sy'n cael ei amlinellu yn Rhan 9 y Canllawiau Statudol. Er mai diben Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw sicrhau bod cyrff partneriaeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i gyflawni'r nod hwn, rhaid ystyried y disgwyliadau ychwanegol sydd ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, fel y rhai hynny sy'n cael eu hamlinellu yn y ddogfen 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.[2]

Mae 'Cymru Iachach' yn nodi'n glir mai "Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fydd prif ysgogwr newid mewn iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel ranbarthol."[3] Rydym yn croesawu gweithio'n agosach i gyflawni "gwasanaethau di-dor" rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ond mae rôl 'Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol' wedi'i chyfyngu i wasanaethau gofal cymdeithasol yn unig, er bod hynny'n rhychwantu iechyd a gofal cymdeithasol. Felly, rhaid ystyried meddwl am ddyheadau 'Cymru Iachach' o ran y fframwaith cyfreithiol y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddynt, ac a ydynt yn gallu ymateb i'r gofynion cynyddol hyn, yn ddeddfwriaethol ac o ran capasiti.

Mae 'Cymru Iachach' yn nodi y bydd "Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol... yn chwarae rhan gref yn goruchwylio ac yn cydlynu." Mae hefyd yn nodi y bydd "swyddogaeth bwysig i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth ysgogi datblygiad modelau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys gofal sylfaenol ac eilaidd, ar lefel leol." Roedd Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 yn nodi mai amcanion byrddau partneriaeth rhanbarthol yw goruchwylio partneriaethau rhanbarthol i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, gan sicrhau bod y partneriaethau'n cyflawni yn unol â'r gofynion y

mae Deddf 2014 wedi'u gosod arnynt.[4] Mae angen bod yn glir ynghylch ai diben Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yw goruchwylio'r system, neu a oes gofyn iddynt fynd ymhellach na hyn, ac ysgogi cyflawni.

Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau bod Deddf 2014 yn cael ei chyflawni, felly mae angen iddynt oruchwylio'n effeithiol ac yn gadarn. Mae eu rôl yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu'n effeithiol drwy asesiadau poblogaeth a chynlluniau ardal yn hollbwysig. Felly, rhaid cael sicrwydd bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn craffu ar waith eu partneriaethau rhanbarthol mewn ffordd gadarn. Er enghraifft, roedd 'Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn: Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth Annibynnol yng Nghymru', yn tynnu sylw at bryderon nad yw'r Asesiadau Poblogaeth presennol yn ystyried yr angen am eiriolaeth mewn poblogaethau lleol yn ddigonol, er gwaethaf y ffaith bod gofyn iddynt wneud hynny.[5] Mae goruchwylio'n effeithio i ba raddau y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod dyletswyddau deddfwriaethol yn cael eu bodloni, yn hanfodol. Mae angen bod yn glir ynghylch rôl Arolygiaeth Gofal Cymru a hefyd rôl Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn craffu ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'n rhaid cefnogi partneriaethau rhanbarthol i oresgyn unrhyw rwystrau y gallant eu hwynebu o ran atebolrwydd lleol a'r dyhead i weithio'n rhanbarthol, gan gynnwys defnyddio cyllidebau cyfun. Er y bydd gofyn i aelodau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn eu rôl y tu allan i'r Bwrdd, adrodd i'w gwahanol strwythurau lleol, rhaid iddynt hefyd fod yn atebol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae yna densiwn cynhenid anorfod gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sydd dal heb ei ddatrys. Efallai y bydd gofyn mynd i'r afael â hyn os na fydd partneriaethau rhanbarthol yn gallu datrys materion o'r fath.

Prif bwyntiau

- Mae gofyn i'r fframwaith deddfwriaethol y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithredu oddi mewn iddo adlewyrchu'r disgwyliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyflwyno yn y ddogfen 'Cymru Iachach';

- Mae angen bod yn fwy clir ynghylch beth yw rôl Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol o ran goruchwylio partneriaethau rhanbarthol neu rôl yn cyflawni modelau iechyd a gofal cymdeithasol newydd;
- Mae gofyn craffu ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn effeithiol er mwyn cael sicrwydd bod partneriaethau rhanbarthol yn cyflawni'r gofynion o dan Ddeddf 2014;
- Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau nad yw'r angen am atebolrwydd lleol yn amharu ar ddyheadau rhanbarthol sy'n cael eu datblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1: A ydych yn cytuno bod y gofyniad bod yn rhaid i gronfeydd cyfun gael eu sefydlu'n rhanbarthol rhwng bwrdd iechyd a phob awdurdod lleol yn ardal y bwrdd iechyd hwnnw yn glir?

Mae'r gofyniad bod yn rhaid i gyrff partneriaeth rhanbarthol greu cronfeydd cyfun ar gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn ac wrth arfer swyddogaethau cefnogi teuluoedd yn glir.

Yn 2014, tynnodd 'Lle i'w Alw'n Gartref?' sylw at y ffaith fod cartrefi gofal nyrsio a phreswyl yn rhan o'r 'system' iechyd a gofal cymdeithasol gyfan, ac y dylid ymdrin â nhw felly mewn modd cynhwysol a chyson.[6] Felly, roedd y Comisiynydd yn croesawu'r gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal. Mae sicrhau bod systemau cynllunio a llywodraethu'n gyson yn ymrwymiad allweddol yn y ddogfen 'Cymru Iachach', a bydd trefniadau ar gyfer cronfeydd cyfun rhwng y GIG a gofal cymdeithasol ar gyfer cartrefi gofal pobl hŷn yn gam ymlaen tuag at ddarparu system iechyd a gofal cymdeithasol ddi-dor.

Rhaid cael dull gweithredu integredig o ran monitro'r contract i gyd-fynd â llety cartref gofal sy'n cael ei gomisiynu ar y cyd, a hynny gan y comisiynwyr a'r cyrff rheoleiddio. Rhaid i arolygiadau gael eu cysoni'n ddigonol er mwyn sicrhau bod amser y darparwyr gwasanaeth a'r arolygwyr yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau, ac er mwyn darparu'r sicrwydd priodol o safbwynt gofal cymdeithasol a chlinigol, fod llesiant pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn cael ei gynnal. Felly, rydym yn croesawu'r ymrwymiad a wneir yn y ddogfen 'Cymru Iachach', sef

cyflwyno cydarolygiadau, i gynnwys gweithio mewn partneriaeth, cyllidebau cyfun a chydgomisiynu.

C2: A yw'r gofyniad y dylai cronfa gyfun fod yn gymwys i gartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn yn glir?

Mae'r gofyniad bod yn rhaid i gyrff partneriaeth rhanbarthol greu cronfeydd cyfun ar gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn yn glir. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys digon o fanylion am y rhesymau sydd wedi arwain at gyfyngu'r gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn yn unig. Hefyd, mae cyfyngu'r gofyniad i greu cronfeydd cyfun yn ymddangos yn groes i'r dyheadau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen 'Cymru Iachach'.

C3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad o bobl hŷn mewn perthynas â chartrefi gofal i bobl hŷn, sef pobl 60 oed a throsodd?

Mae'r diffiniad o bobl hŷn yn yr ymgynghoriad hwn yn gyson â'r diffiniad sydd yn Neddf y Comisiynydd.[7] Er nad yw rhoi sylw i'r anghysonderau ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru o ran yr ystod oedran a ddefnyddir i ddiffinio pobl hŷn, gyda rhai meysydd polisi fel tai yn aml yn defnyddio'r diffiniad o 50 oed a throsodd neu 55 oed a throsodd , yn dod o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn, mae'n dal i fod yn broblem.

Gan fod Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi cael ei rhoi ar waith ac wrth i ni ganolbwyntio mwy ar y Datganiad o Ddiben sy'n ofynnol gan ddarparwyr gwasanaethau a reoleiddir yn y broses reoleiddio, rhaid i gategoreiddio cartrefi gofal ar gyfer pobl 60 oed a throsodd fod yn gydnaws â'r gofynion o dan Ddeddf 2016.[8] Nod Deddf 2016 yw symud i ffwrdd oddi wrth gategoreiddio sy'n golygu bod gofyn i unigolyn symud o'i gartref mewn llety gofal preswyl oherwydd bod ei anghenion wedi newid (a'i fod angen gofal nyrsio, er enghraifft). Felly, rhaid i'r broses o gomisiynu cartrefi gofal i bobl hŷn 60 oed a throsodd, fod yn ddigon hyblyg i allu bodloni'r anghenion yn y cymunedau hefyd (er enghraifft, pobl sy'n byw â dementia cynnar dwys a all fod o dan 60 oed, ond sydd angen llety gofal cartref).

C4: A yw'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol, a'r ffordd y mae'n gysylltiedig â'r gronfa gyfun, yn glir?

Mae'r gofyniad bod cyrff partneriaeth yn creu strategaeth gomisiynu ranbarthol i gefnogi'r gofyniad ar gyfer cronfeydd cyfun yn glir yng nghyswllt cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal i bobl hŷn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oes angen strategaeth gomisiynu yng nghyswllt y gofyniad i greu cronfeydd cyfun wrth arfer swyddogaethau cefnogi teuluoedd neu gronfeydd cyfun eraill y mae cyrff partneriaeth yn dymuno eu creu.

Er bod y canllawiau newydd arfaethedig yn darparu rhywfaint o fanylion am y meysydd y dylid eu cynnwys mewn strategaeth gomisiynu ranbarthol ar gyfer llety cartref gofal i bobl hŷn, byddai'r gofyniad hwn yn cael ei gryfhau drwy gynnwys cyfarwyddyd manylach neu ganllawiau ar wahân ynghylch beth ddylai comisiynu rhanbarthol cadarn ei gynnwys. Dylai canllawiau o'r fath gynnwys manylion ynghylch sut gall strategaethau comisiynu ddatblygu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn asesiadau poblogaeth, datganiadau sefyllfa'r farchnad ac adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad leol i sicrhau bod anghenion y boblogaeth yn cael eu bodloni'n ddigonol.

Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i gydweithio i ystyried a fydd modelau busnes dielw yn bodloni anghenion llesiant eu poblogaeth leol yn well pan fydd ganddynt fudd cyffredin mewn comisiynu gwasanaethau. Dylid cynnwys hyn mewn unrhyw ganllawiau ar strategaethau comisiynu rhanbarthol.

C5: A ydych yn cytuno y dylai'r gofyniad am strategaethau comisiynu rhanbarthol ddechrau ym mis Ebrill 2020?

Mae'r Canllawiau presennol yn nodi bod gofyn creu strategaethau comisiynu i gefnogi'r gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer llety cartref gofal o fis Ebrill 2018. Felly, dylai'r cyrff partneriaeth fod yn gyfarwydd â'r gofyniad i greu strategaethau comisiynu rhanbarthol. Byddai gohirio'r strategaethau comisiynu rhanbarthol tan 2020 yn arwain at oedi gyda'r gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer llety gofal cartref i bobl hŷn.

I bob diben, mae angen cynllun neu strategaeth i gyd-fynd â chronfeydd cyfun er mwyn i'r gronfa gael ei defnyddio i gomisiynu gwasanaethau. Mae Deddf 2014 wedi bod ar waith ers dros ddwy flynedd a hanner bellach. Felly, mae gohirio'r gofyniad, eto fyth, o ran cael dull gweithredu ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol wrth ddarparu cartrefi gofal i

bobl hŷn yn bryder, ac mae'n groes i'r weledigaeth sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen 'Cymru Iachach'.

C6: A ydych o'r farn bod nifer arfaethedig y cynrychiolwyr o'r sector tai yn briodol a bod y cynrychiolwyr hynny o'r sefydliadau cywir?

Nid her i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn unig yw sicrhau bod llesiant a chanlyniadau pobl hŷn yn cael eu bodloni. Felly, mae'r Comisiynydd yn croesawu'r gofyniad i ehangu aelodaeth y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnwys uwch swyddog yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am fuddsoddiadau cyfalaf ym maes tai, yn ogystal â dau gynrychiolydd sy'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Bydd nifer o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn darparu swyddogaethau cymorth yn ogystal â darparu tai anghenion cyffredinol. Ond dylid hefyd ystyried rôl y darparwyr cymorth fel y rheini sy'n darparu gwasanaethau drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl.[9] Gall y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y Rhaglen hon alluogi pobl i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n aml yn cau'r bwlch rhwng tai a gofal cymdeithasol. Felly, gallai cynrychiolwyr o'r sector cymorth sy'n gysylltiedig â thai fod yn gaffaeliaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Dylai Asesiadau Poblogaeth ddarparu data gwerthfawr i'r rheini sy'n dymuno deall anghenion tai y boblogaeth yn well. Er bod y Comisiynydd yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu 20,000 o gartrefi newydd erbyn 2021,[10] mae'n hanfodol mai cartrefi sy'n bodloni anghenion y boblogaeth sy'n cael eu hadeiladu. Mae gofyn dilyn dull mwy soffistigedig os ydym am ddarparu tai sy'n galluogi pobl i fyw yn annibynnol yn hirach mewn cymunedau sy'n gallu bodloni eu hanghenion yn ddigonol. Bydd dull o'r fath yn hanfodol os ydym am weithredu'r argymhellion sydd wedi'u cyflwyno yn yr 'Adroddiad gan y Grŵp Arbenigol ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru'[11] ac unrhyw argymhellion eraill a gyflwynir yn sgil yr 'Adolygiad o Dai Fforddiadwy yng Nghymru'.[12] Bydd hefyd yn helpu i

ddatblygu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 o ran cael dull sy'n fwy hirdymor a chynaliadwy o ddarparu gwasanaethau. Mae tai sy'n addas i angen yn elfen hanfodol o sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau i heneiddio ynddo.

C7: A ydych yn cytuno â'r cynnig i egluro yn y rheoliadau y bydd adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth rhanbarthol yn ofynnol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn?

Mae craffu ar rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn effeithiol yn hanfodol, a dylid gwneud hynny'n brydlon.

Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r ymrwymiad i baratoi canllawiau anstatudol i gefnogi'r gofyniad i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol baratoi adroddiadau blynyddol. Ar hyn o bryd, mae'r adroddiadau blynyddol y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu paratoi yn amrywio o ran fformat a chynnwys. Dylai adroddiadau blynyddol gynnwys naratif clir a chryno am y gwaith y mae'r Byrddau wedi'i wneud i sicrhau bod y partneriaethau rhanbarthol wedi:

- Ymateb yn briodol i'r asesiad poblogaeth a gynhaliwyd
- Rhoi'r cynllun ardal, a baratowyd o ganlyniad i'r asesiad poblogaeth, ar waith yn effeithiol
- Sicrhau bod cyrff partneriaeth yn darparu digon o adnoddau ar gyfer y trefniadau partneriaeth
- Hyrwyddo sefydlu cronfeydd cyfun pan fo hynny'n briodol

Hefyd, mae gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau eu bod yn ymateb i ofynion eiriolaeth eu poblogaeth, fel sydd wedi'i nodi yn eu hasesiadau poblogaeth. Felly, dylai adroddiadau blynyddol nodi'n glir sut mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi rhoi'r gofyniad hwn ar waith.

Yn yr un modd, mae gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnig mewn ffordd hygyrch ac sy'n addas ar gyfer anghenion y bobl sy'n byw yn y rhanbarth. Felly, mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys manylion ynghylch sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi sicrhau bod yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth yn cael eu darparu ym mhob Awdurdod

Lleol yn unol â gofynion Deddf 2014 ac yn unol ag anghenion eu poblogaeth.

Rhaid i Lywodraeth Cymru graffu ar adroddiadau blynyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fanwl, i sicrhau eu bod yn goruchwylio'r Byrddau'n effeithiol ac er mwyn cael darlun cenedlaethol o lwyddiannau a heriau rhoi Deddf 2014 ar waith wrth gyflwyno dull gweithredu syml yng nghyswllt iechyd a gofal cymdeithasol. Hefyd, rhaid i adroddiadau blynyddol fod yn hygyrch ac ar gael i'r cyhoedd ac i gyrff eraill sydd â diddordeb. Nid dyma'r achos bob tro ar hyn o bryd.

Byddai'r Comisiynydd yn croesawu gweld unrhyw ganllawiau drafft sydd wedi'u paratoi ar adroddiadau blynyddol gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

C8: A oes gennych unrhyw sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig i ganllawiau Rhan 9?

Y bennod ar aelodaeth

30. Dylid ailystyried defnyddio'r term 'cynrychioli'. Er bod gofyn i'r aelodau gynnwys, er enghraifft, pobl sy'n gallu cyfleu safbwyntiau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal a chymorth, nid ydynt yn gallu gwir gynrychioli pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Yn yr un modd, ni all dau gynrychiolydd o'r trydydd sector gynrychioli pob mudiad yn y trydydd sector.

Mae gofyn cael amrywiaeth barn er mwyn cael llywodraethu da, ac mae hynny yn ei dro yn arwain at wneud mwy o benderfyniadau ar sail gwybodaeth. Felly, byddai'n fwy priodol cyfeirio at aelodau fel rhai sy'n gallu cyfleu safbwyntiau grŵp penodol, yn hytrach na rhywun sy'n cynrychioli grŵp penodol, ond bai fod mecanweithiau ar waith i ganiatáu i gynrychiolwyr ymgynghori â'r rhai y maent yn eu cynrychioli.

Y bennod ar gronfeydd cyfun

58. Mae'r canllawiau newydd arfaethedig yn nodi bod Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Rhanbarthol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff partneriaeth sefydlu cronfeydd cyfun yng nghyswllt llety cartref gofal i bobl hŷn, ac yng nghyswllt arfer swyddogaethau cefnogi teuluoedd. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi:

“Os bydd cyrff partneriaeth yn penderfynu gwneud pethau ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth, rhaid iddynt ystyried p'un a yw'n briodol sefydlu a chynnal cronfa gyfun.”

Nid yw’n glir a yw’r datganiad hwn yn cyfeirio at feysydd eraill y tu allan i lety cartref gofal i bobl hŷn a swyddogaethau cefnogi teuluoedd. Mae’n glir yn y canllawiau presennol nad yw’r gofyniad i greu cronfeydd cyfun ar gyfer yr ardaloedd a bennwyd yn atal cyrff partneriaeth rhag creu cronfeydd cyfun ar gyfer ardaloedd eraill, yn ychwanegol at y rhai hynny sydd wedi’u pennu. Ond, nid yw’r llinell hon yn y canllawiau newydd arfaethedig yn glir iawn, a gall arwain at ddryswch.

58. Mae’r canllawiau newydd arfaethedig yn nodi bod yn rhaid i'r gronfa gyfun ar gyfer cartrefi gofal fod yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion sy’n cael eu nodi yn y strategaeth gomisiynu ranbarthol. Dylid cryfhau hyn drwy gyfeirio at asesiadau poblogaeth. Dylai cronfa gyfun fod yn ddigonol i ddiwallu’r angen sydd wedi’i ddynodi ar gyfer y boblogaeth, felly, rhaid i strategaethau comisiynu rhanbarthol adlewyrchu’r angen sydd wedi’i amlinellu mewn asesiadau poblogaeth yn gywir, yn arbennig pan fydd asesiadau poblogaeth wedi’u paratoi gan Awdurdodau Lleol unigol yn hytrach nag ar sail ranbarthol. Fel rydym wedi’i nodi’n barod yn yr ymateb hwn, byddwn yn croesawu canllawiau ar baratoi strategaethau comisiynu rhanbarthol.

61. Mae’r canllawiau newydd arfaethedig yn nodi’r gofynion eraill y mae’n rhaid i gyrff partneriaeth eu gwneud yng nghyswllt llety cartref gofal i bobl hŷn, sy’n cynnwys y gofyniad i gynnal dadansoddiad o’r farchnad a pharatoi datganiadau ar sefyllfa’r farchnad. Mae angen bod yn fwy clir ynghylch beth yw dadansoddiad o'r farchnad, ac nid oes cyfeiriad at Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad Leol [13] nac at yr Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Genedlaethol,[14] ac nid yw’r rheoliadau ar gyfer y rhain wedi’u cyhoeddi eto. Yn yr un modd, nid yw’r canllawiau newydd arfaethedig yn taflu mwy o oleuni o gwbl ar beth ddylid ei gynnwys mewn datganiad sefyllfa’r farchnad.

Mae’n bwysig deall angen y boblogaeth a’r farchnad sydd ar gael i helpu i ddiwallu'r angen hwn. Ond, rhaid goruchwylio hyn yn effeithiol er mwyn sicrhau bod dadansoddiad drwy asesiadau poblogaeth, datganiadau sefyllfa’r farchnad ac adroddiadau sefydlogrwydd cenedlaethol a lleol yn

cael eu dwyn ynghyd i greu cynllun gweithredu cadarn o'r hyn sy'n ofynnol.

Roedd 'Lle i'w Alw'n Gartref?' yn nodi'r gofyn i ddatblygu cynllun cenedlaethol sy'n sicrhau bod digon o gartrefi gofal i bobl hŷn ar gael, o'r math iawn ac yn y lle iawn, yn ogystal â chynllun gweithredu clir er mwyn cyflawni hyn.[15] Rwyf wedi croesawu'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â deall y farchnad bresennol ac anghenion y boblogaeth yn well. Ond, nawr mae angen gweithredu i sicrhau bod y mecanweithiau hyn rydym yn eu defnyddio i ragweld angen nawr ac yn y dyfodol, yn rhai cadarn, gan gydweithio i sicrhau bod gan Gymru ddigon o gartrefi gofal o'r math iawn ac yn y lle iawn. Heb hyn, rydym mewn gwirionedd yn tanseilio hawliau pobl hŷn, o ran eu llesiant ac o ran y dewis sydd ganddynt ynghylch ble maent yn dymuno byw.

C11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Er bod rôl y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gymharol newydd ac y bydd hi'n cymryd amser i sefydlu newid, mae'n ymddangos bod arferion gwaith y Byrddau yn amrywio ledled Cymru. Mae rhai Byrddau ymhell ar y blaen i eraill o ran i ba raddau y mae'r aelodau'n cymryd rhan yn y gwaith y mae is-grwpiau Bwrdd yn ei gyflawni. Mae pryderon wedi'u mynegi y gallai hyn arwain at is-grwpiau'n cyflawni swmp helaeth o'r gwaith a'r Bwrdd ehangach yn cymeradwyo penderfyniadau heb fod yn gwbl ymwybodol o'r penderfyniadau y mae gofyn iddo eu gwneud. Mae adborth sy'n nodi bod adroddiadau'n gallu bod yn rhy ddwys neu'n rhy gymhleth i rai aelodau eu deall yn ychwanegu at hyn.

Mae'r cymorth sy'n cael ei roi i aelodau Bwrdd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn bwysig. Efallai y bydd angen cymorth ar rai aelodau Bwrdd i sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu mewn fforwm proffesiynol, lefel uchel. Bydd eraill yn cyflawni eu rôl ar Fwrdd ar ben eu gwaith bob dydd arall, a bydd angen ystyried gallu aelodau Bwrdd i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ofynnol. Hefyd, mae angen ystyried gwrthdaro rhwng buddiannau a allai godi ar gyfer yr aelodau Bwrdd hynny sy'n craffu ar feysydd gwaith yn rhinwedd eu rôl ar Fwrdd, ac y gallant fod yn gyfrifol amdanynt yn rhinwedd eu gwaith cyflogedig.

[1] Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[2] Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[3] Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

[4] Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, r10

[5] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2018) Sicrhau Lleisiau i Bobl Hŷn: Mynediad Pobl Hŷn at Eiriolaeth Annibynnol yng Nghymru.

[6] Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru.

[7] Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, a24(2)

[8] Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

[9] Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn darparu cymorth sy'n ymwneud â thai i helpu pobl agored i niwed i fyw mor annibynnol â phosibl. https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/supporting-people/?skip=1&lang=cy

[10] Llywodraeth Cymru (2017) Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol Symud Cymru Ymlaen

[11] Llywodraeth Cymru (2017) Tai i'r Dyfodol: diwallu dyheadau pobl hŷn Cymru, Adroddiad gan y Grŵp Arbenigol ar Ddarparu Tai ar gyfer Poblogaeth sy'n Heneiddio yng Nghymru.

[12] Llywodraeth Cymru (2018) Datganiad Ysgrifenedig - Adolygiad o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy. 23 Ebrill 2018. https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2018/ahsr/?skip=1&lang=cy

[13] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a56(1)114b

[14] Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a63

[15] Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (2014) Lle i'w Alw'n Gartref? Adolygiad o Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru. Gofyniad Gweithredu 7.1.